

# **Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)**



## **PAPUR CEFNDIR 19 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO**

### **Asesiad Gofod Agored**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll). Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fydddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

**Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.**

# CYNNWYS

	<b>Tudalen</b>
1. Safon Cynllun Datblygu Lleol Conwy .....	4
2. Categoriâu o ofod agored .....	4
3. Perchnogaeth.....	5
4. Ardaloedd sydd wedi'u cynnwys .....	5
5. Asesiad Gofod Agored Conwy vs. Archwiliad ac Asesiad Gofod Agored .....	5
6. Canlyniadau .....	7
7. Darpariaeth newydd .....	8
8. Monitro .....	11

## **1. Safon Cynllun Datblygu Lleol Conwy**

1.1 Mesurwyd y ddarpariaeth bresennol yn erbyn safonau FIT sef y safonau a gynigir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Maent fel a ganlyn:

Isafswm o 2.4 hectar (ha) am bob 1,000 o boblogaeth sy'n cynnwys:-

- Caeau chwarae ar safon o 1.2 ha
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored ar safon o 0.4 ha
- Gofod chwarae i blant ar safon o 0.8 ha.

1.2 Gan gymryd i ystyriaeth sylwadau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ar y CDLI diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd (2011), mae safon lleol ar gyfer gofod agored amwynder wedi cael ei gynnwys yn seiliedig ar y safon yng Nghynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn. Mae'r safon lleol fel a ganlyn:

- Gofod Amwynder agored ar safon o 0.6 hectar fesul 1000 o'r boblogaeth, wedi'i rannu'n 0.3 hectar ar gyfer 'amwynder mawr ffurfiol' a 0.3 hectar ar gyfer 'amwynder cymdogaeth'

1.3 Mae gofod amwynder yn y cyswllt hwn yn ymwneud â'r diffiniad yn Atodiad B o TAN 16 o ran amwynder cymdogaeth a gallai fod yn ddefnyddiol o ran darparu ardal byffer rhwng mannau chwarae cymdogaeth ac eiddo cyfagos. Mae amwynder mawr ffurfiol yn ymwneud â pharciau cyhoeddus, gerddi a thir comin. Er bod gormodedd cyffredinol o ofod amwynder mawr ffurfiol ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae rhai ardaloedd (fel y dangosir yn Nhabl 2) sydd â diffyg. Bydd y safon lleol hwn yn cael ei adolygu yn dilyn Archwiliad ac Aseiad Gofod Agored.

## **2. Categoriâu o ofod agored**

2.1 Ar hyn o bryd, mae gofodau agored cyhoeddus wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Caeau chwarae – meysydd chwarae awyr agored wedi'u marcio
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored – arwynebau naturiol neu artiffisial gan gynnwys cyrtiau tennis, grins bowlio, traciau athletau a chyfleusterau chwaraeon awyr agored eraill
- Gofod chwarae i blant – ardaloedd chwarae gyda chyfarpar, ardaloedd ar gyfer chwarae ar olwynion ac ardaloedd llai ffurfiol.

- 2.2 O safbwynt darpariaeth pob tywydd a Llecynnau Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) dyblwyd arwynebedd y safle ar gyfer pwrpasau cofnodi/ asesu (cefnogir hyn gan FIT ac mae'n adlewyrchu'r cyfraniad mwy y gall safleoedd hynny ei wneud).
- 2.3 Mae'r dadansoddiad yn cymharu darpariaeth bresennol gyda darpariaeth ofynnol i benderfynu ar ddiffygion neu ormodedd. Yna caiff y ddarpariaeth ofynnol ei chyfrifo drwy ddefnyddio safon Cynllun Datblygu Lleol Conwy fel y nodwyd yn adran 1.1.

### **3. Perchnogaeth**

- 3.1 Nid yw'r Cyngor yn berchen ar bob un o'r gofodau agored cyhoeddus. Os oes cytundeb ffurfiol yn bodoli i nodi eu bod ar gael i'r cyhoedd/ defnydd deul rydym yn ystyried eu bod yn cyfrannu at ddarparu gofod agored cyhoeddus.

### **4. Ardaloedd sydd wedi'u cynnwys**

- 4.1 Dadansoddwyd y data yn seiliedig ar aneddiadau mwy. Nid yw nifer o ardaloedd gwledig wedi'u cynnwys gan ei bod yn anodd gweithredu safon y ddarpariaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ystyrllon mewn ardaloedd lle'r oedd dwysedd y boblogaeth yn isel, ond bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn unol â pharagraff 1.5 isod. Ffurfiwyd yr is ardaloedd canlynol o ranbarthau etholiadol fel bod modd gweithredu data'r Cyfrifiad/gwybodaeth iddynt:

Tywyn-Bae Cinmel	Cyffordd Llandudno
Abergele	Conwy
Llysfaen	Penmaenmawr
Colwyn	Llanfairfechan
Bae Penrhyn-Ochr y Penrhyn	Llanrwst
Llandudno	Glan Conwy

### **5. Asesiad Gofod Agored Conwy vs. Archwiliad ac Asesiad Gofod Agored**

- 5.1 Cynhelir Archwiliad ac Asesiad Gofod Agored i ddiwallu gofynion TAN 16 er mwyn canfod anghenion lleol, asesu darpariaeth leol ar gyfer mynediad ac ansawdd, a dynodi diffygion/gormodedd mewn gofod agored yn unol â'r TAN 16 diwygiedig ar Chwaraeon a Hamdden. Oherwydd amseriad cyhoeddi TAN 16 a'r ffaith fod y

Cynllun CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd wedi'i ddatblygu i raddau helaeth erbyn hynny a'r sail tystiolaeth ategol, penderfynwyd y byddai'n briodol cynhyrchu archwiliad ac asesiad unwaith bydd y cynllun wedi'i gyhoeddi i'w archwilio gan y choedd yn unol â'r cyngor yn TAN 16 (paragraff 2.29 i beidio arwain at oedi yn y gwaith ar y CDLI yn absenoldeb Archwiliad ac Asesiad Gofod Agored trylwyr).

- 5.2 Ar ôl ei gwblhau, bydd yr Archwiliad a'r Asesiad yn rhan o sail tystiolaeth y CDLI a bydd polisiâu'n cael eu hadolygu'n unol â hynny yn ôl y dulliau ym mhroses fabwysiadu/ neu adolygu'r CDLI.

## 6. Canlyniadau

6.1 Mae Tabl 1 yn dangos cyfanswm y gofod agored yn ôl categori FIT a'r safon lleol ar gyfer gofod amwynder ym mhrif aneddiadau Conwy.

**Tabl 1**

Lleoliad	Gofod agored (ha)	Caeau Chwarae	Chwaraeon Awyr Agored	Gofod Chwarae	Amwynder Ffurfiol
Llanfairfechan		<b>1.07</b>	<b>1.01</b>	<b>1.63</b>	<b>2.82</b>
Dwygyfylchi		0.00	0.33	1.62	0.00
Penmaenmawr		3.53	0.34	1.40	2.14
Penmaenmawr (cyfanswm)		<b>3.53</b>	<b>0.67</b>	<b>3.02</b>	<b>2.14</b>
Conwy		<b>7.59</b>	<b>0.49</b>	<b>5.58</b>	<b>1.85</b>
Mostyn a Gogarth		6.14	7.49	2.33	10.27
Tudno		4.95	3.28	1.85	0.00
Craig y Don		0.00	1.47	0.27	1.93
Llandudno (cyfanswm)		<b>11.09</b>	<b>12.24</b>	<b>4.45</b>	<b>12.20</b>
Deganwy		0.00	0.34	1.55	0.00
Marl		4.97	0.24	0.18	1.13
Pensarn		2.11	0.00	0.20	0.34
Cyffordd Llandudno/Deganwy (cyfanswm)		<b>7.08</b>	<b>0.58</b>	<b>1.93</b>	<b>1.47</b>
Ochr y Penrhyn/Bae Penrhyn		<b>2.80</b>	<b>0.89</b>	<b>2.20</b>	<b>1.65</b>
Bae Colwyn		2.47	6.32	1.87	13.16
Hen Golwyn		1.98	0.84	3.43	4.05
Llandrillo-yn-Rhos		12.41	3.74	0.60	2.57
Mochdre		2.23	0.36	0.19	0.00
Colwyn (cyfanswm)		<b>19.09</b>	<b>11.26</b>	<b>6.09</b>	<b>19.78</b>
Llysfaen		<b>1.09</b>	<b>0.85</b>	<b>1.16</b>	<b>0.00</b>
Pensarn		0.00	0.00	0.12	1.78
Pentre Mawr		5.56	1.80	0.49	10.36
Gele		0.00	0.00	1.34	0.54
Abergele (cyfanswm)		<b>5.56</b>	<b>1.80</b>	<b>1.95</b>	<b>12.68</b>
Bae Cinnel		1.78	1.72	2.52	1.54
Tywyn		0.00	0.00	1.16	8.57
Tywyn/Bae Cinnel (cyfanswm)		<b>1.78</b>	<b>1.72</b>	<b>3.68</b>	<b>10.11</b>
Glan Conwy		<b>0.86</b>	<b>1.92</b>	<b>0.91</b>	<b>0.14</b>
Crwst		2.05	1.53	1.17	0.83
Gower		0.00	0.00	0.38	0.00
Llanrwst (cyfanswm)		<b>2.05</b>	<b>1.53</b>	<b>1.55</b>	<b>0.83</b>
<b>Cyffredinol</b>		<b>63.59</b>	<b>34.96</b>	<b>34.04</b>	<b>65.67</b>

6.2 Mae Tabl 2 yn dangos y diffygion ar gyfer caeau chwarae, gofod chwaraeon awyr agored a chwarae ar draws y Fwrdeistref Sirol wrth gymharu'r ddarpariaeth bresennol gyda'r safonau FIT a'r safon lleol ar gyfer gofod amwynder, ym mis Rhagfyr 2010.

**Tabl 2**

Gofod agored (ha)	Caeau Chwarae	Chwaraeon Awyr Agored	Gofod Chwarae	Amwynder Mawr Ffurfiol
<b>Lleoliad</b>				
Llanfairfechan	<b>-3.43</b>	<b>-0.49</b>	<b>-1.37</b>	<b>1.70</b>
Dwygyfylchi	-1.68	-0.23	0.50	-0.42
Penmaenmawr	0.65	-0.62	-0.52	1.42
Penmaenmawr (cyfanswm)	<b>-1.03</b>	<b>-0.85</b>	<b>-0.02</b>	<b>1.00</b>
Conwy	<b>2.55</b>	<b>-1.19</b>	<b>2.22</b>	<b>0.59</b>
Mostyn a Gogarth	-2.26	4.69	-3.27	8.17
Tudno	-1.11	1.26	-2.19	-1.52
Craig y Don	-3.90	0.17	-2.33	0.96
Llandudno (cyfanswm)	<b>-7.27</b>	<b>6.12</b>	<b>-7.79</b>	<b>7.61</b>
Deganwy	-4.50	-1.16	-1.45	-1.13
Marl	0.59	-1.22	-2.74	0.04
Pensarn	-1.07	-1.06	-1.92	-0.46
Cyffordd Llandudno/Deganwy (cyfanswm)	<b>-4.98</b>	<b>-3.44</b>	<b>-6.11</b>	<b>-1.55</b>
Ochr y Penrhyn/bae Penrhyn	<b>-2.96</b>	<b>-1.03</b>	<b>-1.64</b>	<b>0.21</b>
Bae Colwyn	-9.89	2.20	-6.37	10.07
Hen Colwyn	-7.38	-2.28	-2.81	1.71
Llandrillo-yn-Rhos	3.83	0.88	-5.12	0.43
Mochdre	0.07	-0.36	-1.25	-0.54
Colwyn (cyfanswm)	<b>-13.37</b>	<b>0.44</b>	<b>-15.55</b>	<b>11.67</b>
Llysfaen	<b>-2.21</b>	<b>-0.25</b>	<b>-1.04</b>	<b>-0.83</b>
Pensarn	-2.82	-0.94	-1.76	1.08
Pentre Mawr	1.36	0.40	-2.31	9.31
Gele	-5.40	-1.80	-2.26	-0.81
Abergele (cyfanswm)	<b>-6.86</b>	<b>-2.34</b>	<b>-6.33</b>	<b>9.58</b>
Bae Cinmel	-5.42	-0.68	-2.28	-0.26
Tywyn	-2.84	-0.95	-0.74	7.86
Tywyn/Bae Cinmel (cyfanswm)	<b>-8.26</b>	<b>-1.63</b>	<b>-3.02</b>	<b>7.60</b>
Glan Conwy	<b>-1.84</b>	<b>1.02</b>	<b>-0.89</b>	<b>-0.54</b>
Crwst	-0.23	0.77	-0.35	0.26
Gower	-1.38	-0.46	-0.54	-0.35
Llanrwst (cyfanswm)	<b>-1.61</b>	<b>0.31</b>	<b>-0.89</b>	<b>-0.09</b>
<b>Cyffredinol</b>	<b>-51.27</b>	<b>-3.33</b>	<b>-42.43</b>	<b>36.95</b>


## 7. Darpariaeth newydd

- 7.1 Cynyddu ac/neu gynnal darpariaeth gofod agored Ardal y Cynllun, cynigir yn gyntaf y dylid diogelu lefelau presennol y gofod agored. Dylai darpariaeth gofod agored ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â'r safonau FIT a amlinellir yn adran 1.1. Cynigir dau ddyraniad yn y CDLI, sef:




## 7.2 I'r de o'r caeau chwarae presennol oddi ar Ffordd Llan San Siôr, Abergele

7.2.1 Oherwydd bod gofod agored wedi'i gollu ar dir gerllaw cylchfan Threeways, Abergele, cynigir y dylid darparu 1.8 hectar o ofod agored yn ei le fel rhan o'r dyraniad defnydd cymysg rhwng Ffordd Rhuddlan a Ffordd Llan San Siôr. Mae'n debygol y caiff hyn ei ddarparu i'r de o'r caeau chwarae presennol, fodd bynnag, bydd angen rhagor o fanylion ar gynllun y datblygiad fel rhan o'r briff datblygu.



### 7.3 Ffordd Top Llan, Glan Conwy

7.3.1 Nid yw'r cae pêl-droed presennol (sy'n rhannol o fewn parth C2) yn ddigon mawr i ddiwallu anghenion y gymuned, felly mae angen cae mwy. Bydd oddeutu 1 hectar o dir yn cael ei ddyrannu i'r pwrpas hwn. Amlinellir manylion am ei union leoliad mewn briff datblygu.



## **8. Monitro**

- 8.1 Mae'r Fframwaith Gweithredu a Monitro CDLI yn cynnwys dangosyddion a phwyntiau sbarduno ar ddarpariaeth gofod agored. Bydd y CDLI yn monitro darpariaeth y gofod agored drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol, gan gynnwys targedau a phwyntiau sbarduno ar gyfer adolygu polisïau ar ddarparu a diogelu darpariaeth gofod agored. Fel rhan o'r gwaith hwn ac yn unol â gofynion TAN 16, bydd y Cyngor yn cynnal Asesiad Mannau Agored pellach i alluogi monitro cyfoes polisïau ac, os oes angen, eu hadolygu.